



Ein cyf/Our ref: MA/RE/0962/22

At:

Arweinwyr Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Anfonir copi at:

Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol  
yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

8 Mawrth 2022

Annwyl Gyfeillion

Yn dilyn ymgynghoriad gyda llywodraeth leol, drwy CLILC, rwyf yn cyhoeddi heddiw fanylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Diwygiedig Llywodraeth Leol ar gyfer 2021-22 i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.

Bydd y Grant Cymorth Refeniw ar gyfer 2021-22 yn cynyddu cymaint â £60 miliwn. Nid yw'r cyllid yn gyllid rheolaidd ac felly ni fydd y sylfaen ar gyfer cyfrifo setliad 2022-23 yn cael ei addasu o ganlyniad i hyn.

Bydd y cyllid hwn yn eich cefnogi i reoli eich cyllidebau yn fwy effeithiol yn ystod y cyfnod 2021-22 i 2024-2025 yn wyneb sefyllfa o chwyddiant a phwysau ar wasanaethau, a therfyn y Cyllid Caledi Llywodraeth Leol. Bydd hefyd yn eich helpu i barhau i ddatgarboneiddio gwasanaethau ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur.

Er bod y cyllid hwn yn gyllid heb ei neilltuo, y bwriad yw y bydd hefyd yn eich galluogi i ymateb i'ch uchelgais i wella gallu'r gwasanaeth cymorth cartref drwy ariannu gwersi gyrru a darparu mynediad at gerbydau trydan fel rhan o'ch gwaith parhaus i ddatgarboneiddio gwasanaethau ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* terfynol a'r tablau ychwanegol sy'n cynnwys manylion y Setliad terfynol fesul awdurdod unigol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd y Llywodraeth yn awr yn mynd ati i osod Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2021-22 i fod yn destun dadl yn y Senedd ar 15 Mawrth 2022.

Yn gywir

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales  
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government